


# Y Gell Cyngor Technegol

## Crynodeb o'r cyngor

7 Chwefror 2021







(h) Hawlfraint y Goron 2020

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

7 Chwefror 2021

**Crynodeb o'r Prif Bwyntiau**

- Mae'n debygol bod y cyfyngiadau presennol yng Nghymru a'r ffaith eu bod yn cael eu dilyn yn dda yn lleihau maint epidemig COVID-19 yng Nghymru (hyder uchel).

- Mae'r gostyngiadau hyn yn dilyn niferoedd uchel iawn o heintiadau a phobl yn yr ysbyty, ac mae'r GIG yn parhau i fod o dan gryn bwysau. Mae angen parhau i fod yn wyliadwrus er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n parhau i wella, ac i osgoi mynd yn ôl i sefyllfa lle mae nifer yr heintiadau'n cynyddu'n gyflym iawn.

- Ar 4 Chwefror, roedd nifer y bobl yn yr ysbyty y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 wedi gostwng yn ystod yr wythnosau diwethaf, ond mae'n parhau i fod yn uchel ac yn uwch na'r brig a welwyd ym mis Ebrill.

- Mae'r SPI-M wedi modelu cynnydd tebygol yr epidemig pe bai'r cyfyngiadau'n cael eu codi'n rhy gynnar neu'n rhy gyflym, a chanfod bod tebygolrwydd uchel o ddychwelyd i'r lefelau presennol o heintiadau a phobl yn yr ysbyty yn y senarios hynny (hyder uchel).

- Y ffordd orau o leihau'r tebygolrwydd y bydd amrywiolynnau newydd yn dod i'r amlwg yw cadw nifer yr heintiadau'n isel (hyder uchel).

- Yn wahanol i ddata profi, mae data o astudiaeth o heintiadau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y gyfradd positifedd yng Nghymru wedi lefelu yn ystod yr wythnos ddiweddaraf.

- Mae nifer y marwolaethau sy'n cael eu cofnodi bob wythnos drwy drefniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer nodi marwolaethau'n gyflym wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf, ond mae'n parhau i fod yn uchel ar ychydig o dan 200 yr wythnos.

- Erbyn 7 Chwefror, roedd cyfanswm o 603,976 o bobl yng Nghymru wedi derbyn eu dos cyntaf o frechlyn COVID-19. Mae 2,792 o bobl wedi derbyn dau ddos. Bydd nifer gwirioneddol y dosau'n uwch yn dilyn cofnodi data parhaus.

- Mae'r papurau gan SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol ar gael yma. Mae papurau diweddar a gyhoeddwyd gan y Grwp Cyngor Technegol ar gael yma:

- Ystyriaethau ar gyfer newid trefniadau ysgolion i ganiatáu mwy o ddysgu wyneb yn wyneb
- Datganiad consensws ar brofi yng nghyd-destun brechu mewn perthynas â chartrefi gofal

**Y gyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu**

- Y rhif Atgynhyrchu ($R_t$) yw nifer cyfartalog yr heintiadau eilaidd a gynhyrchir gan un unigolyn heintiedig. Mae $R_t$ yn werth cyfartalog dros amser, lleoliadau daearyddol a chymunedau. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli amcangyfrif R ar gyfer y DU o ystyried y gwahaniaethau mewn polisïau ar draws y pedair gwlad.

- Mae'r amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu ($R_t$) ar gyfer Cymru gan SAGE (a gymeradwywyd gan SAGE ar 4 Chwefror) rhwng 0.7 ac 0.9 (cyfwng hyder o 90%). Dangosir yr amcangyfrif o $R_t$ fel ystod heb amcangyfrif canolog, ac mae rhywfaint o oedi'n gysylltiedig â'r dangosydd hwn, yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael hyd at 1 Chwefror.

- Mae SAGE yn amcangyfrif bod y gyfradd twf ddyddiol bresennol (a gymeradwywyd ar 4 Chwefror) rhwng -0.06 a -0.03 (cyfwng hyder o 90%) yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiadau fod yn crebachu rhwng -6% a -3% y dydd.

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn amcangyfrif $R_t$ ar gyfer Cymru gan ddefnyddio data ar nifer yr achosion positif. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r amcangyfrifon hyn oherwydd efallai yr effeithir arnynt gan newidiadau mewn patrymau profi. Ar 29 Ionawr, roedd amcangyfrifon yn dangos bod $R_t$ yng Nghymru rhwng 0.63 a 0.66 (cyfwng hyder o 95%).
- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli amcangyfrifon $R_t$ a chyfraddau twf ar gyfer y DU, oherwydd yr oedi anochel sy'n gysylltiedig â nhw, ac oherwydd bod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiadau a'r modd y mae'r cyfraddau trosglwyddo yn newid yn rhai rhannau o'r wlad.

**Amser haneru**


- Ar 2 Chwefror, roedd amcangyfrifon Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod yr amser haneru (yr amser y mae'n ei gymryd i nifer yr achosion haneru) yn 13.2 diwrnod (cyfwng hyder o 95%: 7.6 i 49.1) gan ddefnyddio data o 16/01/2021 i 29/01/2021

- Mae amser haneru (a chyfraddau twf $R_t$), yn rhoi syniad o gyfradd y newid ac felly dylid ei drin yn ofalus am y rhesymau a amlinellir uchod.

**Diweddariad rhyngwladol**

- Mae’r sefyllfa gyffredinol yn Ewrop yn parhau i wella, hyd yn oed yn Sbaen a Phortiwgal sydd, yn ôl pob golwg, wedi atal y cynnydd sydyn a welwyd yn ddiweddar, ac wedi dechrau gweld nifer yr heintiadau’n gostwng yn cyson. Yr unig wlad lle mae nifer yr heintiadau’n codi (er nid yn sydyn) yw'r Ffindir, ac mae hyn yn dod o ffigur llinell sylfaen cymharol isel. Fodd bynnag, yr unig ffordd mae gwledydd wedi cyflawni’r gwelliant hwn yw drwy gynnal mesurau rheoli llym, a rhoi ymyriadau llym, nad ydynt yn rhai fferyllol, ar waith. Felly, nid oes lle i fod yn hunanfodlon nac i laesu dwylo, yn enwedig o ystyried yr amrywiolynnau newydd sydd wedi cael eu canfod yn helaeth ac sy’n peri pryder.

- Mae'r map isod yn dangos y gyfradd hysbysu gyfartalog bob 100,000 o bobl yn Ewrop mewn cyfnod o 14 diwrnod. Nid yw'r DU wedi'i chynnwys oherwydd Brexit.






- Mewn mannau eraill, mae’r sefyllfa yn Ne America yn gymysg. Mae rhai gwledydd wedi atal neu leihau eu cyfraddau heintio (e.e. yr Ariannin, Brasil, Chile, Uruguay, Paraguay), ond mae’r cyfraddau mewn gwledydd eraill yn cynyddu (e.e. Bolivia, Perw a Venezuela). Mae sefyllfa debyg yn Ne Affrica, lle mae’r cyfraddau yn Ne Affrica, Namibia a Zimbabwe yn gostwng, ond ym Mozambique mae cyfraddau’n codi. Unwaith eto, mae’r gwledydd hyn wedi atal neu leihau eu cyfraddau heintio drwy ymyriadau llym nad ydynt yn fferyllol. Mae’r gostyngiadau hyn yn nifer yr achosion wedi digwydd er gwaethaf y ffaith bod yr amrywiolynnau newydd yn fwy heintus, ond mae’n rhy gynnar i ddweud a fydd yr amrywiolynnau newydd hyn yn gwrthdroi’r gostyngiadau hyn. Mae hefyd


adroddiadau am heintiadau'n cynyddu'n gyflym yn lleol mewn mannau yn Affrica, a De America, sefyllfa y gellid colli rheolaeth arni.

- O ran yr amrywiolynnau newydd, mae'r map cyntaf isod yn dangos nifer a lleoliad y gwledydd sydd wedi canfod VOC 202012/01 (Amrywiolyn y DU, Caint). Nid yw amrywiolynnau eraill mor helaeth – er hynny, credir eu bod yn lledaenu'n gyflym mewn rhai gwledydd nad oes ganddynt y gallu i gynnal profion genomig.

- Mae'r mapiau ymhellach i lawr yn dangos lledaeniad amrywiolyn De Affrica (501Y. V2) ac amrywiolyn Brasil (P.1 neu B.1.1.248).







- Mae data ynglŷn â'r sefyllfa ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ar gyfer oedi o ran data ac amrywiaeth mewn polisïau profi, ar gael yma.

## Nifer yr achosion

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr achosion o COVID-19 a gadarnhawyd y dydd (swm cyfnod treigl o saith diwrnod, fesul 100,000 o'r boblogaeth). Mae achosion yn parhau i ddangos tuedd ar i lawr.





**Ffynhonnell:** Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 2 Chwefror

## Proffil oedran

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu'r sampl a grŵp oedran. Mae'r coch tywyllach yn dangos nifer uwch o achosion wythnosol.

- Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ystod wythnos 4, gostyngodd y digwyddedd achosion ar draws pob grŵp oedran. Roedd nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 85+ oed.



**Ffynhonnell:** Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel yr oeddent ar 5 Chwefror.

**Canlyniadau Astudiaeth Heintiadau Covid-19 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

- Mae'r data hyn yn ddefnyddiol gan mai'r rhain yw'r unig amcangyfrifon o heintio sy'n cynnwys achosion asymptomatig yn ogystal ag achosion symptomatig, ac nid yw ffactorau eraill fel capasiti profi na nifer y bobl sy'n dod i gael eu profi yn effeithio arnynt. Mae'r canlyniadau ar gyfer cartrefi preifat yn unig – y 'boblogaeth gymunedol' – ac nid ydynt yn berthnasol i bobl mewn ysbytai, cartrefi gofal neu leoliadau sefydliadol eraill.


- Fodd bynnag, mae rhagor o oedi o ran data o'r arolwg heintiadau nag o ffynonellau eraill fel Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol fach yw nifer y profion positif y mae'r arolwg yn eu nodi yn gyffredinol, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn. Gall y data dilyniannu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer achosion positif fod yn fwy cadarn ac yn llai agored i oedi, er mai dim ond pobl sydd wedi dewis cael eu profi y maent yn eu cynnwys fel arfer.

- Mae data arolwg heintiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf (24–30 Ionawr 2021) yn dangos bod y gyfradd positifedd yng Nghymru wedi lefelu yn yr wythnos ddiweddaraf, ar ôl disgyn o'r brig a welwyd ychydig cyn y Nadolig.

- Ar gyfer yr wythnos 24–30 Ionawr 2021, roedd gan gyfartaledd o 1.40% o'r boblogaeth gymunedol COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 1.19% i 1.63%). Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 1 person ym mhob 70 (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 85 i 1 o bob 60), neu 42,700 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95%: 36,100 i 51,600).

- Mae'r Ffigur isod yn dangos yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer cyfraddau positifedd (%) ers 20 Rhagfyr 2020 ar draws pedair gwlad y DU.


- Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon pwynt unigol ar gyfer y gwledydd. Ceir mwy o ansicrwydd mewn perthynas â'r amcangyfrifon ar gyfer y dyddiau olaf yn y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart isod.




**Ffynhonnell:** Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19) y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 03/02/21

- Yn dilyn cynnydd diweddar, mae achosion positif sy'n gydnaws â'r amrywiolyn newydd VOC 202012/01 wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf. Mae achosion nad ydynt yn amlwg yn gydnaws â'r amrywiolyn newydd hefyd wedi gostwng. Mae achosion lle roedd lefelau'r feirws yn rhy isel i'r amrywiolyn gael ei adnabod wedi cynyddu; gall y rhain gynrychioli achosion lle mae gwerth Ct (trothwy cylch[1]) yn uchel a bod unigolion wedi bod â'r y feirws am gyfnod hwy. Gweler y siart isod.

[1] Mae gwerth Ct uchel yn dangos crynodiad isel o ddeunydd genetig ac mae gwerth Ct isel yn dangos crynodiad uchel o ddeunydd genetig feirysol




**Ffynhonnell:** Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19) y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 03/02/21

- Cyhoeddir canlyniadau llawn ar gyfer Cymru yma, a chan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yma.

## Brechu yng Nghymru

- Erbyn 4 Chwefror roedd cyfanswm o 523,042 o bobl yng Nghymru wedi derbyn eu dos cyntaf o frechlyn COVID-19. Mae 1,635 o bobl wedi derbyn dau ddos.

- Bydd nifer gwirioneddol y dosau yn uwch oherwydd cofnodi data'n barhaus.

- Mae data ar frechiadau ar gael ar ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Marwolaethau

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y marwolaethau COVID-19 a gofnodwyd drwy drefniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer nodi marwolaethau'n gyflym dros gyfnod treigl saith diwrnod, fel yr oedd ar 2 Chwefror. Mae nifer wythnosol y marwolaethau a gofnodwyd wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf, ond mae'n parhau i fod yn uchel ar tua 180 yr wythnos. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r tueddiadau diweddaraf.





**Ffynhonnell:** Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel yr oeddent ar 2 Chwefror

- Mae'n bwysig nodi bod y data hyn yn cynnwys adroddiadau am farwolaeth cleifion mewn ysbytai neu gartrefi gofal yng Nghymru lle mae COVID-19 wedi'i gadarnhau drwy brawf labordy positif a bod y clinigwr yn amau bod COVID-19 yn ffactor a achosodd farwolaeth. Nid yw'n cynnwys cleifion a allai fod wedi marw o COVID-19 ond na chadarnhawyd hynny drwy brofion labordy, y rhai a fu farw mewn lleoliadau eraill, neu breswylwyr o Gymru a fu farw y tu allan i Gymru. Bydd gwir nifer y marwolaethau yn uwch.

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd ar farwolaethau o ganlyniad i achosion a gadarnhawyd ac achosion tybiedig o COVID-19 gan ddefnyddio data sydd ar gael ar ôl cwblhau'r broses cofrestru marwolaethau ac er eu bod yn destun oedi, maent yn fwy cyflawn.

- Yng Nghymru, cynyddodd nifer y marwolaethau cofrestredig sy'n gysylltiedig â COVID-19 o 447 (Wythnos 3) i 361 (Wythnos 4), y chweched uchaf a gofnodwyd ar unrhyw adeg yn ystod y pandemig. Mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID sy'n cael eu cofnodi wedi gostwng ddwy wythnos yn olynol.

- Mae'r Ffigur isod yn dangos data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a gofrestrwyd fesul wythnos yng Nghymru a nifer y marwolaethau o bob achos a gofrestrwyd fesul wythnos rhwng 28 Rhagfyr 2019 a 29 Ionawr 2021.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Marwolaethau mewn cartrefi gofal

- Fel yr hysbyswyd Arolygiaeth Gofal Cymru, rhwng 1 Mawrth 2020 a 29 Ionawr 2021, roedd marwolaethau preswylwyr o ganlyniad i achosion o COVID-19 a amheuwyd neu a gadarnhawyd yn cyfrif am gymaint â 23% o'r holl farwolaethau a gofnodwyd.

- Yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, mae arwyddion cynnar bod marwolaethau ymhlith preswylwyr cartrefi gofal o COVID-19, achosion a gadarnhawyd neu a amheuwyd, yn gostwng, ond mae nifer y marwolaethau yn amrywio bob wythnos. Mae'r niferoedd hyn yn dal i fod yn uchel ac yn agos at y lefelau a welwyd ym mis Ebrill.

- Ar ddechrau mis Tachwedd 2020 bu cynnydd yn nifer y marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 a hysbyswyd i Arolygiaeth Gofal Cymru. Yn dilyn gostyngiad ym mis Rhagfyr 2020, bu cynnydd pellach ym mis Ionawr 2021. Yn gyffredinol, mae nifer cyfartalog marwolaethau COVID-19 rhwng 15 a 20 bob dydd, sy'n uwch na'r cynnydd a welwyd ym mis Tachwedd 2020.

- Mae'r Siart isod yn dangos hysbysiadau am farwolaethau preswylwyr cartrefi gofal i oedolion o ganlyniad i achosion o COVID-19 a gadarnhawyd neu a amheuwyd yn ôl lleoliad y farwolaeth a diwrnod yr hysbysiad (cyfartaledd treigl saith diwrnod, rhwng 7 Mawrth 2020 a 29 Ionawr 2021).




- Mae rhagor o wybodaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru am farwolaethau mewn cartrefi ar gael yma. Noder mai ffigurau dros dro yw'r rhain i helpu i fonitro effaith COVID-19. Ni ellir eu cymharu â data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.


- Mae oedi wrth i ddata gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynglŷn â marwolaethau ddod i law, ond byddant yn fwy cyflawn ac yn nodi niferoedd uwch o farwolaethau. Roedd marwolaethau mewn cartrefi gofal a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 yn cyfrif am bron i hanner yr holl farwolaethau mewn cartrefi gofal yn Wythnos 4 (49.0%), cynnydd o Wythnos 3 (46.6%).

**Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt**

- Mae data newydd ar gael gan IPSOS MORI yr wythnos hon. Mae canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru yr un fath â'r wythnos ddiwethaf.

- Mae'r data diweddaraf gan IPSOS MORI ar gyfer y cyfnod 29 Ionawr – 1 Chwefror ar gyfer Cymru yn dangos sefyllfa debyg i'r gyfres ddiwethaf o arolygon bythefnos yn flaenorol (15–19 Ionawr). Dylid nodi mai'r unigolion eu hunain sy'n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac y bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data.


- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar blatfform Global Advisor. Mae pob cam wedi cynnwys oddeutu 500 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16–74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.




- Mae canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws ar gyfer y cyfnod 18 Ionawr – 24 Ionawr yn dangos bod 53% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau presennol yn eu hardal leol yn 'dda iawn'. Dywedodd 40% arall eu bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i bythefnos yn ôl a oedd yn uwch na'r rhai yng nghanol mis Rhagfyr cyn i rybudd lefel 4 ddechrau. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 55% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a bod 37% arall wedi dweud eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif, sydd unwaith eto yn uwch nag yng nghanol mis Rhagfyr. Dywedodd 19% fod pobl y tu allan i'w haelwyd/aelwyd estynedig a ganiateir wedi dod i mewn i'w tŷ, a dywedodd 13% eu bod wedi mynd i dai pobl eraill – mae'r ddwy ganran hon yn is nag yng nghanol mis Rhagfyr.

**Symudedd**

- Mae data symudedd ar gyfer yr wythnos gyntaf ym mis Chwefror gan Facebook ac Apple yn dangos cynnydd bach o'i chymharu â'r wythnos flaenorol. Mae data gan Google ac O2 ar gyfer yr wythnos olaf ym mis Ionawr hefyd yn dangos cynnydd bach o'i chymharu â'r wythnos flaenorol. Gwelir y lefelau uchaf o symudedd o amgylch ail wythnos y seibiant tân.





- Mae symudedd defnyddwyr Facebook yng Nghymru yn dangos bod symudiadau 28% yn is na'r llinell sylfaen ar gyfer yr wythnos hyd at 6 Chwefror. Mae hyn yn uwch na'r wythnos flaenorol (30%). Canran y defnyddwyr a arhosodd gartref (neu yn agos at gartref) oedd 34%, ychydig yn is na'r wythnos flaenorol (35%). Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 4 wythnos 2 Chwefror – 29 Chwefror 2020.

- Mae data Apple ar gyfer yr wythnos hyd at 6 Chwefror yn dangos bod nifer y ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu o'i gymharu â'r wythnos flaenorol ar 74% o'r llinell sylfaen (i fyny o 70%). Roedd nifer y ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a nifer y ceisiadau am gyfarwyddiadau trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn uwch na'r wythnos flaenorol o'u cymharu â'r llinell sylfaen. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.

- Mae data symudedd Google hyd at wythnos 31 Ionawr ar gyfer preswylfeydd (h.y. pobl sy'n treulio amser gartref) yn debyg i'r wythnos flaenorol, sef 15% yn uwch na'r llinell sylfaen. Roedd gweithleoedd wedi codi ychydig (41% yn is na'r llinell sylfaen), i fyny o 42%. Mae symudedd mewn perthynas â manwerthu a hamdden wedi cynyddu ychydig ers yr wythnos diwethaf (58% yn is na'r llinell sylfaen, i fyny o 61%) tra bo archfarchnadoedd a fferyllfeydd yn dangos cynnydd bach (21% yn is na'r llinell sylfaen, i fyny o 24%). Nid yw trafnidiaeth gyhoeddus yn dangos unrhyw newid o gymharu â'r wythnos flaenorol, ac mae parciau ychydig yn is.

- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos 3 Ionawr – 6 Chwefror 2020. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst – 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.




- Mae data ffôn symudol dienw, cyfanredol gan O2 ar gyfer yr wythnos hyd at 29 Ionawr yn dangos cynnydd bach yn nifer y teithiau o'i gymharu â'r wythnos flaenorol. Cododd teithiau sy'n dechrau yng Nghymru o 1 pwynt canran i 52% o'r llinell sylfaen. Y llinell sylfaen ar gyfer data O2 yw'r un diwrnod o'r wythnos yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth.

## Ymchwil

- Mae 11,045 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n gynnydd o 278 ers yr adroddiad diwethaf.

## Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Fel yr oedd ar 4 Chwefror

- Mae cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw Iechyd Cymru sy'n gysylltiedig â symptomau COVID-19 posibl wedi gostwng o'i chymharu â'r wythnos flaenorol.

- Mae ymgyngoriadau gan feddygon teulu ar gyfer unrhyw Haint Anadlol Acíwt ac achosion o COVID a amheuwyd wedi gostwng yr wythnos hon o'i chymharu â'r wythnos flaenorol.

- Mae nifer y galwadau ambiwlans a oedd o bosibl yn gysylltiedig â COVID-19 wedi parhau i fod yn sefydlog yn yr wythnos ddiweddaraf o'i chymharu â'r wythnos flaenorol.

- Mae nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd gan y labordy wedi parhau i ostwng yn yr wythnos ddiweddaraf. Gostyngodd positifedd sampl ar gyfer episodau profi i o dan 10% yn Wythnos 4.

- Yn ystod Wythnos 4, gostyngodd y digwyddedd achosion ar draws pob grŵp oedran, roedd nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 85+ oed.

- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd a phositifedd episodau profi wedi gostwng ym mhob ardal yng Nghymru yn ystod yr wythnosau diwethaf.

- Ar lefel genedlaethol, gostyngodd nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty a nifer y cleifion mewnol a chanddynt achos wedi'i gadarnhau, o'u cymharu â'r wythnos flaenorol. Yn ystod yr wythnos diweddaraf, gostyngodd derbyniadau i wardiau gofal critigol o'i chymharu â'r wythnosau blaenorol.

- Mae data gwyliadwriaeth diweddar yn awgrymu bod heintiadau COVID-19 yng Nghymru yn gostwng yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru. Mae achosion yn parhau i fod ar draws ardal ddaearyddol eang, ond mae'r tueddiadau o ran digwyddedd achosion a gadarnhawyd yn gostwng yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdod lleol yn ystod yr wythnos ddiweddaraf.

- Mae nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi gostwng ond mae'n parhau i fod yn uchel mewn cartrefi gofal preswyl.

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgol yn cael eu haddysgu ar-lein ar hyn o bryd, gyda rhywfaint o ddysgu wyneb yn wyneb ar gyfer plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol. Mae gwybodaeth gwyliadwriaeth ysgolion ar gael ar ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Mae marwolaethau o bob achos yn uwch o'u cymharu â'r cyfartaledd pum mlynedd, ond gostyngodd yn yr wythnos ddiweddaraf.

- Gostyngodd marwolaethau mewn ysbytai o ganlyniad i achosion a gadarnhawyd, ac yr adroddwyd amdanynt drwy drefniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer

nodi marwolaethau yn ystod yr wythnos diwethaf, ond maent yn parhau i fod yn uchel.

- Mewn marwolaethau lle mae gwybodaeth ar gael drwy drefniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer nodi marwolaethau'n gyflym, clefyd cronig y galon, diabetes a chlefydau anadlol cronig yw'r ffactorau risg a gofnodir amlaf (mewn 34%, 28% a 22% o farwolaethau yn y drefn honno).
- Nid yw'r Ffliw yn cylchredeg yng Nghymru ar hyn o bryd.


**Dadansoddiad o awdurdodau lleol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

(Y cyfnod sy'n cynnwys 24–30 Ionawr 2021)


- Mae pob awdurdod lleol yn y trothwy uchaf ar gyfer digwyddedd saith diwrnod (> 50 fesul 100,000) a phositifedd profion (>5%), ar wahân i Wynedd sydd yn y braced digwyddedd is, sef 25 i <50 bob 100,000.
- Byddwch yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau ar gyfer y cyfnod diweddaraf gan nad yw data profi bob amser yn gyflawn a bydd y ffigurau'n cael eu diwygio yn y dyfodol os bydd data yn cael eu cyflwyno'n hwyr.
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Y defnydd o welyau mewn ysbytai**

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y gwelyau ysbytai a oedd yn cael eu defnyddio gan gleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19, yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl saith diwrnod, fel yr oedd ar 4 Chwefror).



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y gwelyau mewn unedau gofal dwys a oedd yn cael eu defnyddio gan gleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl saith diwrnod, fel yr oedd ar 4 Chwefror).





- Fel yr oedd ar 4 Chwefror, mae nifer y bobl y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 yn yr ysbyty wedi gostwng dros yr wythnosau diwethaf, ond mae'n parhau i fod yn uchel ac yn uwch na'r brig a welwyd ym mis Ebrill. Mae cyfanswm cyffredinol y gwelyau sy'n cael eu defnyddio mewn unedau gofal dwys (cleifion â COVID-19 a chleifion nad oes ganddynt COVID-19), a'r cyfanswm ar gyfer cleifion â COVID-19 yn unig wedi dechrau gostwng yn gyson yn ystod y 2–3 wythnos diwethaf, ond mae'n parhau i fod yn uchel. Mae nifer y bobl sy'n gwella o COVID-19 yn parhau i fod yn uchel – tua 1,000 – yn yr wythnos ddiweddaraf.

- Wrth ystyried data ar gapasiti (230 o welyau) a'r defnydd o welyau (173 o welyau) a adroddwyd inni gan fyrddau iechyd lleol, mae tua 75% o welyau uned gofal dwys Lefel 3 ledled Cymru yn cael eu defnyddio gan gleifion sydd â COVID a chleifion nad oes ganddynt COVID (fel yr oedd ar 4 Chwefror). Fodd bynnag, fel arfer ceir oddeutu 152 o welyau gofal critigol (sy'n gyfwerth ag unedau gofal dwys Lefel 3) ac felly mae ysbytai'n creu capasiti gwelyau gofal critigol ychwanegol yn sgil y galw cynyddol. Felly, mae'r defnydd o welyau uned gofal critigol yng Nghymru yn 100% neu ragor o'u capasiti gofal critigol arferol ac efallai na fydd cymhareb staff nyrsio 1:1 ar gyfer pob claf critigol yn bosibl i lawer o gleifion, hyd yn oed gyda staff nad ydynt yn gweithio fel arfer ym maes gofal critigol yn helpu i ofalu am gleifion.


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf COVID-19 positif ac sydd mewn uned gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru. Data fel yr oeddent ar 4 Chwefror.





- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yr amheuwyd (SUD) neu y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 (COV+). Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl saith diwrnod, ac mae'r llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol y pryd hynny. Data fel yr oeddent ar 4 Chwefror.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl  a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuwyd (SUS) neu y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 (COV+). Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl saith diwrnod, ac mae'r llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol y pryd hynny. Data fel yr oeddent ar 4 Chwefror.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y cleifion a dderbyniwyd i uned gofal dwys yr amheuwyd (SUS) neu y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 (COV+). Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, ac mae'r llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol y pryd hynny. Data fel yr oedd ar 4 Chwefror.




**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Os yw hynny'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau'r cyngor a roddir.

